CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

# Cronfa'r Deyrnas Unedig

## Cefnogi Cymunedau i Ddod Ynghyd

Gweminar Gwybodaeth ar gyfer darpar ymgeiswyr

## Ein Strategaeth

**Strategaeth newydd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol 2023-2030**

Creu cymunedau gwydn sy'n fwy cynhwysol ac amgylcheddol gynaliadwy drwy ariannu gweithgareddau a fydd yn cryfhau cymdeithas ac yn gwella bywydau ledled y DU.

**Pedwar nod cymunedol yn cefnogi cymunedau**

- i **ddod ynghyd**
- i fod yn **amgylcheddol gynaliadwy**
- i helpu **plant a phobl ifanc i ffynnu**
- i alluogi pobl i fyw **bywydau mwy iach.**

## Ein dull:

- Dull seiliedig ar degwch i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb.
- Cefnogi cymunedau i adeiladu ar eu cryfderau.
- Cefnogi'r hyn sydd bwysicaf i wahanol gymunedau.

## Portffolio'r DU

**Mae Portffolio'r DU yn un o bum portffolio ariannu sy'n ffurfio CGYLG.**

Rydym yn archwilio dulliau newydd ac yn profi ffyrdd newydd o adeiladu cymdeithas sifil gryfach.

Mae ein hariannu'n cefnogi prosiectau a syniadau sy'n arwyddocaol ledled y DU ac yn canolbwyntio ar newid trawsnewidiol.

**Rydym yn cefnogi gwaith sydd:**

- o **fudd i'r DU gyfan**
- yn **gallu ehangu**
- yn rhoi sylw i'r **materion** sy'n wynebu cymunedau

## Cronfa'r Deyrnas Unedig:

- Ein ffocws cychwynnol yw un o bedwar nod y Strategaeth newydd, **Cefnogi Cymunedau i Ddod Ynghyd**.
- Mae grantiau'n dechrau o **£500k am 2-5 mlynedd** ar gyfartaledd.
- Mae hon yn **rhaglen dreigl agored**, gyda chyllidebau sylweddol ar gael bob blwyddyn.
- Rydym yn **adeiladu ar ddysgu** o raglenni'r DU – Mewn Undod Mae Nerth, Tyfu Syniadau Gwych a'r Gronfa Ddigidol.

## Yr hyn yr ydym yn chwilio amdano

**Hoffem ariannu prosiectau sy'n gwneud o leiaf un o'r canlynol:**

- gwaith i **gryfhau perthnasoedd rhwng pobl sydd wedi cael gwahanol brofiadau** bywyd
- mynd ati i **greu cysylltiadau rhwng y byd ar-lein ac all-lein**
- helpu sicrhau bod **pobl o bob cefndir yn gallu llywio dyfodol** eu cymunedau.

## Meini prawf allweddol

Byddwn yn ariannu amrywiaeth eang o brosiectau. Fodd bynnag, bydd pob prosiect a ariennir gennym yn gallu dangos y byddant:

- **o fudd i gymunedau ar draws y DU (neu mae ganddynt y potensial i wneud hynny)** - gallai hyn fod trwy rannu dysgu, dylanwadu, cydweithio, cynnull neu ddarparu gweithgarwch ar draws gwledydd y DU a rhyngddynt
- **yn gallu cynyddu eu heffaith** - gallai hyn fod trwy ehangu i leoliadau newydd, datblygu neu ddyfnhau seilwaith, cryfhau darpariaeth neu gynyddu cyrhaeddiad
- **yn canolbwyntio ar degwch** – hoffem ariannu prosiectau sy'n cynnwys ac yn buddio llefydd, pobl a chymunedau sy'n profi tlodi, anfantais a gwahaniaethu.

## Ffyrdd o weithio

Rydym hefyd yn chwilio am brosiectau sy'n dangos bod ganddynt:

- **y potensial i gyflawni newid systemau** – effeithio ar brofiad pobl o'r gwasanaethau a'r systemau sy'n rhan o'u bywydau bob dydd
- **ffyrdd o weithio gydag eraill** – cydweithio ar draws systemau a sectorau i gyflawni newid parhaol
- **ymrwymiad i ddysgu** – rhannwch ddysgu'n agored ac addaswch wrth gael mewnwelediadau newydd
- **dull adfywiol** – cael effaith gadarnhaol ar bobl a'r amgylchedd naturiol.

## Yr hyn yr ydym yn annhebygol o'i ariannu

**Rydym yn annhebygol o ariannu prosiectau sydd yn:**

- **canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau** yn unig
- bwriadu symud **gweithgarwch presennol ar-lein** yn unig
- bodoli eisoes heb unrhyw gynllun ar gyfer **sut y byddant yn ehangu**
- **newydd sbon**
- **gweithio ar wahân.**

## Ein dull dysgu a gwerthuso:

- Byddwn yn gwahodd prosiectau a ariennir i weithio gyda ni i **gyd-ddylunio cwestiynau ymchwil** a fydd yn esblygu dros amser.
- Bydd yr ymholiad cydweithredol hwn yn ein helpu ni i gyd i ddeall mwy am yr amodau sy'n galluogi cysylltiad cymdeithasol orau.
- Bydd pob cwestiwn yn datblygu fel **taith ddysgu** – archwiliad bach wedi'i gynllunio i fuddio prosiectau unigol a'r cymunedau y maent yn gweithio gyda nhw, y garfan gyfan a datblygiad y rhaglen yn y dyfodol.
- Byddwn yn comisiynu **partner dysgu** i gefnogi'r gwaith hwn.

## Ein dull:

- Rydyn ni wedi rhannu gyda **gweminarau wedi'u recordio** er mwyn i ni allu rhannu mwy o wybodaeth am y rhaglen.
- Os yw eich prosiect yn cyd-fynd yn dda â'r rhaglen **gallwch ymgeisio** ar ein gwefan.
- Byddwn yn gwneud **asesiad cychwynnol** ac yna'n gwahodd y ceisiadau cryfaf ymlaen i'r **cam nesaf.**
- Yn y cam nesaf hwn, byddwn yn gofyn am **wybodaeth fanylach** am eich prosiect, gan gynnwys **cyllideb a chyfrifon.**
- **Pwyllgor Ariannu'r DU** sy'n gwneud y penderfyniad terfynol

## Ac yn olaf - rhestr wirio:

- Ydych chi'n **gymwys** ar gyfer ein cyllid?
- Ydych chi'n cysylltu a) pobl â phrofiadau gwahanol neu b) y byd all-lein ac ar-lein neu c) cymunedau a'u dyfodol?
- A fydd eich prosiect o fudd i gymunedau **ledled y DU?**
- Ydych chi'n **ehangu** eich gwaith?
- A yw **tegwch** wrth wraidd eich prosiect?
- Ydych chi'n gweithio'n systematig, yn gydweithredol, yn adfywiol, yn agored?

## Camau nesaf

**Os ydych chi'n credu bod eich syniad yn addas ar gyfer y rhaglen**
Gallwch ymgeisio ar ein gwefan:
www.tnlcommunityfund.org.uk/welsh/funding/programmes/the-uk-fund

**Os nad ydych chi'n credu bod Cronfa'r Deyrnas Unedig ar eich cyfer chi**
Cysylltwch â'n llinell gymorth:
www.tnlcommunityfund.org.uk/welsh/about/contact-us